Patricia St John: 1923–1993

Nyrs ym Morocco

Dyfalbarhad / penderfyniad

Dyna ddiwedd arni! Roedd hi wedi cael ei dal. Y gath o bawb. Ie, dyna lle'r oedd y gath yn gorwedd yn dorllwyth ar y tabledi a'r moddion oedd ar y troli. Ond sut ddaeth y gath i mewn i'r ysbyty? Beth petai'r meddygon yn cael clywed am hyn? Cwynodd un o'r cleifion, a bu'n rhaid i Patricia'r nyrs fynd i weld awdurdodau'r ysbyty.

Gofynnwyd iddi, "Ydych chi'n meddwl, Patricia, eich bod eisiau bod yn nyrs? Oni fyddai'n well i chi chwilio am waith arall? Yn ôl y manylion sydd gennym amdanoch, rydych wedi bod yn sâl am wythnos ac yna ddechrau'r wythnos roedd yna gath yn cysgu ar y troli. Y troli oedd yn cario'r moddion i'r cleifion. Dydi hyn ddim yn ddigon da..."

Ar ôl y cyfarfod, aeth Patricia am dro ar hyd y stryd. 1943 oedd hi ac roedd angen nyrsys gan fod y wlad yng ngafael rhyfel. Roedd wedi teimlo fod Duw wedi ei galw i fod yn nyrs. Ond roedd hi'n gwybod ei bod wedi bod yn sâl am wythnos a doedd hynny ddim yn help i unrhyw ysbyty. Ac wedyn y gath...!

Ei phroblem oedd ei bod yn ofni'r Metron. Roedd hi'n teimlo'n fethiant llwyr. Er ei mwyn ei hun ac er mwyn pobl eraill, efallai y buasai'n well iddi roi... Ac yna ar boster mawr tu allan i'r orsaf fe welodd blacard enfawr ac adnod o'r Beibl arno, "Dywedodd Iesu, 'Wyt ti'n credu y galla i wneud hyn?' Roedd hi'n gwybod bod Duw yn siarad efo hi. "Wyt ti'n credu, Patricia, y galla i dy helpu di yn dy waith?" Yn y fan a'r lle derbyniodd help Duw. Oedd, roedd Duw yn barod i'w helpu hi!

Aeth yn ôl i'r ysbyty. Cafodd air â'r Metron. Roedd wedi newid ei hagwedd yn gyfan gwbl. Ar ôl y diwrnod hwnnw fu hi ddim yn sâl ac fe wnaeth yn saff nad oedd y gath yn mynd i gysgu ar y tabledi a'r moddion!

Ar ôl i'r rhyfel ddirwyn i ben, cafodd alwad gan ei brawd i fynd i'w helpu i ysbyty ym Morocco. Roedd hwn yn waith anodd iawn. Roedd rhaid dysgu iaith newydd sbon ynghyd â dysgu am arferion y wlad. Ar y cychwyn, doedd y trigolion ddim yn ei derbyn. Gwraig ddieithr oedd hi. Doedd hi ddim yn siarad eu hiaith nac yn

deall eu harferion.

Ond un diwrnod, pan oedd Patricia ar ei ffordd i'r ysbyty, rhedodd un o'r brodorion ar ei hôl gan weiddi, "Hei, nyrs, nyrs, fedrwch chi fy helpu?"

Roedd ganddi fabi bach yn ei chôl. Edrychodd Patricia ar y babi bach ac fe welodd fod ei amrannau yn sownd yn ei gilydd a'i lygaid wedi chwyddo.

"Neithiwr," meddai mam y babi wrthi, "fe ges i freuddwyd. Fe ddywedodd rhywun mewn dillad gwyn wrtha i am fynd â'r babi at y nyrs yn yr ysbyty."

Rhoddodd Patricia eli ar lygaid y plentyn a dweud wrth y fam am iro ei lygaid dair gwaith y dydd. Aeth y fam â'r babi bach allan o'r ysbyty yn hapus iawn. Roedd Patricia yn gwybod fod Duw wedi ei galw i fod yn nyrs ym Morocco. Roedd yr hyn roedd mam y babi bach wedi'i ddweud wrthi wedi cadarnhau hyn. Roedd hi mor hapus ei bod yn gallu gwneud gwaith roedd Duw eisiau iddi ei wneud. Ac yno, ym Morocco, y bu Patricia St John farw ym 1993.

"Paid ag arswydo na dychryn, oherwydd yr wyf fi, yr Arglwydd dy Dduw, gyda thi ple bynnag yr ei."
Josua 1:9

O Arglwydd,
mi fydda i weithiau yn teimlo fel roedd Patricia,
yn dda i ddim.
Pob dim yn mynd o'i le,
ac er i mi drio fy ngorau,
dydi fy ngorau ddim digon da weithiau.
Os gweli di'n dda, wnei di fy helpu?
Amen.

Fyddwch chi weithiau'n teimlo'n fethiant? Er eich bod wedi ceisio gwneud eich gorau, mae pethau'n dal i fynd o chwith. Ydi gofyn am help yn beth da ar achlysur fel hyn? Help gan bwy?

Patricia St John: 1923–1993